**TUDALEN 20**
Cofnodion cyfarfod Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd yn Neuadd Penrhyn a thrwy fideo-gynadledda Zoom ar **16 Ionawr 2023** am 6.30 pm.

**PRESENNOL:-** Ei Deilyngdod y Maer, Cyng. Gwynant Roberts; Cyng. Elin Walker Jones (Dirprwy Faer), Cyng. Steve Bell, Cyng. Salamatu Fada, Cyng. Dylan Fernley, y Cyng. Medwyn Hughes, Cyng. Huw Wyn Jones, Cyng. Jac Jones, Cyng. John Wynn Jones, Cyng. Gareth Parry; Cyng Shane Parsons; Cyng.Meic Pattison, Cyng. Eirian Williams Roberts, Cyng. Gareth Roberts, Cyng. Mark Roberts, Cyng. John Wyn Williams.

Swyddogion:- Martin Hanks (Cyfarwyddwr y Ddinas), Llinos Fôn Jones (Dirprwy Gyfarwyddwr y Ddinas) Howard Huws (Cyfieithydd) Sioned Jones (Cofnodion).

**81/ 22 YMDDIHEURIADAU :** Cyng. Nigel Pickavance ,

**82/22 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**
Dim

**83/22 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**
Dim

**84/22 DERBYN ADRODDIAD ARIANNOL Y CYFARWYDDWR DINESIG**
*Adroddiad wedi ei ddosbarthu cyn y cyfarfod.*
Cymeradwyodd yr aelodau'r adroddiad a chroesawu'r camau bach sy'n cael eu cymryd i wella'r Stryd Fawr.

**85/22 DERBYN ADRODDIAD ARIANNOL Y CYFARWYDDWR DINESIG;**
*Adroddiad wedi'i dosbarthu gan y Cyfarwyddwr Dinesig cyn y cyfarfod.*
Diolchodd yr aelodau i Gyfarwyddwr y Ddinas am ei adroddiadau manwl. Eglurodd y Cyfarwyddwr Dinesig fod y sefyllfa ariannol yn iach, ond dywedodd mai amcangyfrif oedd y swm a ddygir ymlaen. Os yw hwn yn wahanol erbyn 31 Mawrth, bydd yn effeithio ar y Gyllideb. Rhai pwyntiau yr oedd angen eu hegluro:

a) Y £75k ar gyfer gwaith ychwanegol ar y Pier. Eglurodd y Cyfarwyddwr Dinesig fod hwn yn rhan o'r cam nesaf o'r gwaith i ddiogelu'r Pier, fodd bynnag mae angen dechrau ar y gwaith ar fyrder.
b) Tynnwyd sylw at y ffaith fod £50k yn y gyllideb ar gyfer gwella parciau a chaeau chwarae'r Ddinas.
c) Staffio. Gyda'r Rheolwr Prosiect yn ymddeol yn fuan, byddai angen rhoi ystyriaeth i strwythur staffio'r Cyngor. Mae'n bosibl y gallai hyn gynnwys swydd ran-amser sy'n gysylltiedig â digwyddiadau.
d) Holwyd am lwfans y Maer, gan fod y swm wedi ei ostwng i £1,500. Eglurodd Cyfarwyddwr y Ddinas mai penderfyniad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol oedd hwn. Fodd bynnag, roedd y ffigur hwn ar gyfer taliadau nas rhagwelwyd, gallai'r Maer barhau i hawlio treuliau fel arfer ond iddo gyflwyno derbynebau.

**TUDALEN 21**
**CYMERADWYODD** yr Aelodau Gyllideb Ariannol Cyfarwyddwr y Ddinas ar gyfer 2023-2024.

**87/22 CYMERADWYO PRAESEPT 2023-2024**
Yn dilyn y trafodaethau uchod, **PENDERFYNWYD** cynyddu'r praesept ar gyfer blwyddyn ariannol 2023 – 2024. Roedd hyn yn cynrychioli cynnydd o tua £1.20 y mis ar gyfer aelwyd Band D.

**88/22 YMATEB I'R CYNNIG I LEIHAU TERFYNAU CYFLYMDER Y DDINAS**
Yn unol â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, bydd gan holl ffyrdd Bangor derfyn cyflymder o 20mya o fis Medi 2023. Fodd bynnag, cynigir 3 eithriad: bydd y rhain yn aros ar 30mya. Eglurwyd mai'r rheswm dros gadw'r rhain ar 30mya yw er mwyn osgoi gyrwyr yn mynd o 40mya i 20mya yn sydyn iawn.
**PENDERFYNWYD** derbyn y cynnig.

**89/22 CEFNOGI MENTER I ADNEWYDDU'R GERDDI BEIBLAIDD**
Roedd manylion cynnig i adnewyddu'r Gerddi Beiblaidd a chefnogi'r gwirfoddolwr sy'n cynnal a chadw'r lle wedi cael eu hanfon ymlaen llaw. Roedd y cynnig yn cynnwys prynu offer ychwanegol a chwt i'w storio.
Roedd yr aelodau'n cydymdeimlo'n llwyr â'r sefyllfa ac yn cytuno mewn egwyddor. Fodd bynnag, gan fod perchnogaeth y tir wrthi'n cael ei drafod gan Gyngor Gwynedd a'r Gadeirlan, roedd teimlad bod yn rhaid gwybod pwy yw'r perchennog i ddechrau.
**PENDERFYNWYD** gofyn i'r Cyfarwyddwr Dinesig gael manylion am y berchnogaeth.

**90/22 TRAFOD PROSIECT CYSYLLTU PLANT Â NATUR**
Awgrymwyd fod Cyngor y Ddinas yn cefnogi cynllun i wneud plant yn fwy ymwybodol o fyd natur. Mae Gerddi Botaneg Treborth a'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt, ymhlith eraill, wedi ymrwymo i'r cynllun hwn sy'n cynnwys cysylltu â Natur drwy deithiau cerdded, clybiau garddio, ysgolion coedwig ayb. Er bod derbyniad da i'r cynnig, tynnwyd sylw at y ffaith y byddai heriau ynghlwm â gweithio gyda phobl ifanc a bregus.
**PENDERFYNWYD** cefnogi'r fenter, yn ddelfrydol trwy gefnogi mudiadau trydydd parti sydd â phrofiad o weithio gyda phlant.

**91/22 TRAFOD TREFNIADAU CORONI'R BRENIN**
Atgoffodd Cyfarwyddwr y Ddinas yr aelodau am y Coroni ym mis Mai a dywedodd y byddai disgwyl i bob ardal yn ôl pob tebyg drefnu rhyw fath o ddathliad. Nid oedd gan yr aelodau unrhyw syniadau penodol ar gyfer dathliadau a theimlwyd y byddai'n ddefnyddiol darganfod yn gyntaf beth sydd mae awdurdodau lleol eraill yn ei wneud.
**PENDERFYNWYD** gofyn i Gyfarwyddwr y Ddinas fesur lefel y diddordeb mewn cynghorau lleol eraill.

**92/22 CYMERADWYO'R RHESTR TALIADAU**
Cyflwynwyd taliadau yn gwneud cyfanswm o £58,143. Roedd yr aelodau'n dymuno gweld adroddiad llawn o'r digwyddiad Cracer Nadolig a dywedodd Cyfarwyddwr y Ddinas y byddai hyn yn digwydd yn y cyfarfod nesaf.
**CYMERADWYWYD** y rhestr taliadau.

**TUDALEN 23**

**93/22 UNRHYW FATER ARALL**
Er gwaethaf ymdrechion gwiw, mae'r system hybrid yn dal i achosi anawsterau, oherwydd ceisio cysylltu Zoom â chyfleusterau cyfieithu. Gofynnodd yr Aelodau i hon fod yn eitem ar yr agenda nesaf.
**PENDERFYNWYD** bod Cyfarwyddwr y Ddinas yn parhau i wneud ymholiadau pellach er mwyn ceisio datrys y broblem.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.45 p.m**
CYFARWYDDWR DINESIG – Martin Hanks – CITY DIRECTOR